**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**6/10/2020**

**Cyfrwng: StarLeaf**

**Presennol:** **Y Cynghorwyr** Rhodri Jones (Cadeirydd), Dewi Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**2151** **Croesawyd** pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau Alwyn E Jones a Branwen Haf. Cytunwyd i gymeradwyo absenoldeb mamolaeth Branwen Haf am 6 mis ( gyda'r hawl i ymestyn yr absenoldeb awdurdodedig am 6 mis wedyn).

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Huw Antur ym mater 2157v (Llwybr Tegid).

**2152** **Cofnodion:** Cytunwyd ar gywirdeb cyfarfod dros y we ar Fedi 1af 2020.

**2153** **Materion y Clerc:**

i. Ar ran y Cyngor, cefnogwyd cais Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf am grant i Mantell Gwynedd i uwchraddio'r toiledau.
ii. Llwybr Cŵn – derbyniwyd ymateb y Swyddog Hawliau Tramwy yn mynegi fod trywydd y llwybr ar hyd ffens gefn CCF; bydd archwiliad o'r safle yn fuan. Mae'r canllaw ar bont Craig y Tân ar lwybr march rhif 47 wedi ei adnewyddu erbyn hyn.
iii. Cais NP5/71/473A Cottage Garn – mae gwybodaeth ar wefan PCE fod y cais hwn wedi ei wrthod.

**2154** **Adroddiad Cyngor Gwynedd** – Dywedodd y Cynghorydd Alan Jones Evans fod gwaith wedi ei gynllunio ar y ffordd wrth Tŷ'n Fedw; bydd gwaith yn cael ei wneud ar y pafin rhwng Pengeulan â Maes y Pandy. Mae gwaith clirio coed, trwsio'r ffordd wrth y groesffordd a rhoi tarmac ar ffordd Trawscoed yn digwydd; mae dad-flocio ffos Bryncaled ar y gweill. Mae gwaith torri coed yn ôl ar y ffordd o Tŷ Nant at Lluest Lwyd wedi ei gynllunio. Mae addewid i glirio'r draeniau wrth y toiledau i osgoi gorlifiad o Ddôl y Felin. Cafwyd sicrwydd nad yw clirio'r ffos yn gyfrifoldeb i Ddŵr Cymru na Chyngor Gwynedd.

Dywedodd ymhellach fod y raddfa Covid 19 yn codi'n agos at y waelodlin yng Ngwynedd, ond bod hyn yn cael ei yrru i raddau helaeth gan fewnlifiad myfyrwyr, yn bennaf yn ardal Bangor. Diolchwyd i Alan Jones Evans am ei adroddiad a'i waith.

**2155** **Sylfeini:** Derbyniwyd llythyr gan *Cynefin* yn mynegi nad ydynt yn bwrw ymlaen gyda'r cynllun i adeiladu ym Maes y Pandy. Mynegwyd siom na chynhwyswyd Sylfeini na'r Cyngor Cymuned yn y penderfyniad terfynol. Roedd teimlad cryf nad oedd un cyfarfod Zoom mewn cyfnod o 6 mis yn ddigonol fel ymgynghoriad gyda thrigolion Llanuwchllyn. Yn wir, teimlwyd fod yr ardal wedi ei chosbi oherwydd ymdrechion y cynghorwyr i sicrhau fod y cynllun adeiladu yn gydnaws ag anghenion yr ardal. Ceisiwyd amlygu yn y cyfarfod hwnnw

fod yr apêl leol yn isel oherwydd y pwyslais ar gartrefi cymdeithasol yn y cynllun a'r methiant mynych i osod eiddo *Cynefin* i bobl leol.

Sgil effaith rôl *Cynefin* ym Maes y Pandy yw nad ydyw Parc Cenedlaethol Eryri wedi bod yn barod i ystyried ardaloedd eraill yn y pentref ar gyfer adeiladu i ddiwallu anghenion lleol. Cytunwyd i roi sylw i hyn yn y Cynllun Ardal y mae'r Cyngor yn ei baratoi. Cytunwyd i anfon sylwadau'r Cyngor at *Cynefin*.

**2156 Creu Cynllun Ardal**- derbyniwyd adroddiad Huw Antur o'r cyfarfodydd diweddar o'r Panel. Gobeithir creu cynllun a fydd yn rhoi blaenoriaethau i ni fel ardal ac a fydd cael ei gydnabod gan Barc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd. Y penawdau yw

- Economi a chefnogi busnesau lleol;
- Twristiaeth Gynaliadwy;
- Tai a pholisi cynllunio addas i'r ardal
- Ynni adnewyddol
- Cyfleusterau Hamdden i oedolion a phlant
- Y gymuned a'i diwylliant
- Iechyd, lles a gwirfoddoli

Cytunodd y Cynghorwyr i ymgynghori ar y penawdau uchod i drafod gyda 5 person arall (amrywiol os yn bosib) er mwyn i'r cynllun adlewyrchu barn a syniadau'r ardal.

Cytunwyd i gael is-bwyllgor y Nadolig: Alwyn E Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Lis Puw

**2157 Adroddiadau Cynghorwyr:**

i. **Eiddo:** Adroddodd Karl Jones fod y gwaith o uwchraddio'r toiledau wedi cychwyn; mae angen cais i'r Rheolau Adeiladau a chais cynllunio i Barc Cenedlaethol Eryri. Cytunwyd i dalu am gyflwyno'r ddau gais hwn. Cytunwyd fod angen mynediad rydd at y toiled anabl oherwydd yn y fan honno y lleolir yr offer newid clytiau. Diolchwyd i Karl Jones am baratoi'r ceisiadau.

ii. **Y fynwent newydd:**

a. Derbyniwyd adroddiadau gan aelodau o'r cyhoedd fod claddu llwch wedi digwydd heb awdurdod y Cyngor yn ddiweddar; apeliwyd am wybodaeth bellach.
b. Adroddwyd hefyd fod rhywrai wedi bod yn gwneud gwaith ar ail-osod carreg heb ganiatâd y Cyngor ac felly'n torri amodau'r yswiriant.
c. Derbyniwyd pris am baentio *railings* cefn y fynwent newydd ac mae'r gwaith paratoi wedi cychwyn.
d. Dywedodd Karl Jones fod angen diogelu'r wal wrth droi mewn i faes parcio'r fynwent gan ei fod yn beryglus erbyn hyn.

iii. **Mynwent yr Eglwys:** Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi trafod yr eiddew trwchus sy'n tyfu'n wyllt dros yr yw gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri . Cytunwyd i aros am farn arbenigwyr coed y Parc cyn cychwyn ar y gwaith o dorri'r eiddew.

iv. **Llwybr y Cei**: Dywedodd y Cadeirydd fod y Parc yn hapus gyda'r gwaith sydd wedi ei wneud ar y tyfiant o gwmpas y llwybr ac mae gweddill y grant wedi ei dalu i goffrau'r Cyngor. Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am yr wyneb.

v. **Llwybr Tegid**: Amlinellodd Huw Antur y cefndir i'r cais am gefnogaeth y Cyngor i gynnal a chadw Llwybr Tegid, yn y gobaith y bydd wedi ei mabwysiadau gan gyrff eraill yn y dyfodol. Cytunwyd

- i gefnogi'r cais i gwblhau'r lwybr, heb ymrwymiad fod y Cyngor Cymuned gymryd cyfrifoldeb llwyr a pharhaol dros y llwybr
- i fod yn rhan o'r drafodaeth ynglŷn â phwy ydy'r corff gorau i fabwysiadu'r llwybr yn y tymor hir,
- i gymryd at y gwaith o gynnal a chadw'r llwybr yn y tymor byr (byddai goblygiadau i'r Praesept); cytunwyd i dalu am dorri'r gwrych y gaeaf hwn
- i roi arwydd Pont Rhyd y Ceir ar y bont gerdded.

**2158** **Materion ariannol:** Diolchwyd i Bethan Edwards am e-bostio manylion y sefyllfa ariannol; derbyniwyd £1015 sef gweddill grant Parc Cenedlaethol Eryri. Talwyd y biliau misol arferol.

**2159** **Ceisiadau Cynllunio**

**NP5/71/LB43F Prys Mawr, Llanuwchllyn. LL23 7UF** *Trosi adeiladau amaethyddol yn unedau gwyliau (4x16 gwely) yn ogystal ag uned ar gyfer pobol ag anawsterau, gan gynnwys elfennau ail doi gyda 13 o ffenestri to, 12 panel PV, estyniadau paneli rhychiog, mynedfa newydd pren to llechi, adeilad penty ar gyfer offer gwresogi, ystafelloedd cegin, bwyta, ymlacio, uned carthffosiaeth Biotec 4 Klargester, mae parcio ar gyfer 10 cerbyd yn ogystal â holl waith allanol o amgylch y buarthau (Yr un cais eto ar gyfer Adeilad Rhestredig)*

Oherwydd bod y geiriad am nifer y gwlâu yn y Cais yn amwys, cytunwyd fod y Clerc yn cysylltu gyda Pharc Cenedlaethol Eryri i sicrhau beth yn union yw niferoedd y gwlâu sydd yn y cais, a gofyn iddynt wneud newid i'r cais fel bo hyn yn gwbl eglur. Cytunwyd i oedi rhag gwneud penderfyniad terfynol parthed cefnogi'r cais hyd nes y derbynnir yr wybodaeth hon. Mynegodd nifer barodrwydd mewn egwyddor i gefnogi os mai 16 gwely sydd; mynegwyd hefyd ddymuniad i ofyn i'r Swyddog Cynllunio fynd â'r cais i'r Pwyllgor Cynllunio i'w drafod. Dywedodd y Clerc y byddai'n e-bostio'r wybodaeth gywir pan fyddai'n dod i law, ac y gellid trefnu cyfarfod pellach i drafod y cynllun pe byddai dymuniad i wneud hynny.

**2160** **Materion lleol**: Mynegwyd pryderon trigolion am ddiogelwch plant yn beicio a chwarae yn y pentref, a hefyd pryderon am yrru diofal lawr Stryd Pandy Mawr. Cytunwyd i gyflwyno'r pryderon am ddiogelwch plant mewn nodyn ar dudalennau cymdeithasol Cyfeillion yr Ysgol a'r Adran Bentref. Cytunwyd i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd a GoSafe yr Heddlu i dynnu sylw at y gyrru diofal ar Stryd Pandy Mawr. Cytunodd Alan Jones Evans i ofyn i Gyngor Gwynedd am fesurau i liniaru'r broblem.

**2161** **Biniau halen –** derbyn gwybodaeth am eu cynnwys

1. **Cynllwyd** Ffordd Y Gyrn
2. Tŷ Mawr - *llawn*

3. Nantybarcud Cynllwyd (angen i'r lori gritio fynd i'r fferm hon ac nid troi am y Plas - neb yn byw yn Y Plas) - *hanner llawn*
4. **Penantlliw** Tyddynronnen
5. Tŷ Du
6. Tan y Castell
7. Rhiw Carmel x 2
8. Ceunant coch (ar ôl pasio Buarth Meini - sat nav yn anfon ambiwlans ffordd hon!!!) *llawn*
9. Brynllech - *llawn*
10. **Peniel** Ffordd Cwm Onnen

**2162 Gohebiaeth**

i. Cytunwyd i gefnogi cais Cyngor Tref Nefyn am gefnogaeth i'w ymgyrch ynglŷn â thai gwyliau.
ii. Ymateb Simon Roberts i bryderon am orlwytho'r Parc gydag ymwelwyr: diolchodd Mr Roberts am lythyr y Cyngor a dywedodd ei fod wedi gyrru'r cais at Adam Daniel, un o uwch swyddogion y Parc; nid oes ymateb wedi dod hyd yn hyn.
iii. Gohebiaeth o'r Gaiman, sef Ricardo Javier Evans yn gofyn i ni ystyried cyfeillio; dywedodd Beryl Hughes Griffiths ei bod yn barod i gysylltu, mynegi croeso i'r syniad a gofyn sut y medrwn fod o gymorth. Bydd hwn ar Agenda y mis nesaf i gael trafodaeth bellach.
iv. Panel ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Gynghorwyr – eglurodd y Clerc ei gynnwys. Derbyniwyd sawl llythyr yn barod yn gwrthod y taliad.
v. Ap Covid 19 - eglurodd y Clerc y neges a'r posibilrwydd o'i lawr lwytho yn Gymraeg.
vi. Eglurodd y Clerc am LIFE, sef prosiect gwella'r Afon Ddyfrdwy lawr o'r Bala, a chyfeiriodd at y recordiad o'r lansiad.
vii. Awel y Coleg – rhannwyd gwybodaeth am fflatiau sy'n rhydd.
viii. Arolwg effaith Covid ar yr iaith Gymraeg – cytunodd y Clerc i'w ail anfon i'r Cynghorwyr.
ix. Derbyniwyd llythyr yn diolch am gyfraniad at yr Adran Bentref.
x. Nodwyd derbyn gohebiaeth Parc Cenedlaethol Eryri am ymgynghoriad ar ganllawiau cynllunio atodol.

**2163 Partneriaeth Penllyn** – Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr yn dweud fod y swyddfeydd newydd yn llenwi ond bod eraill ar gael.

Holwyd am ddefnyddio'r cyfrwng Starleaf Meeting yn ein cyfarfod nesaf er mwyn osgoi clywed adlais.

Cytunwyd i gynnal y Cyfarfod Blynyddol o flaen cyfarfod mis Tachwedd.

*Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 3/11/20 ar StarLeaf*

*Amser gorffen: 9.30pm*